# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 8

CYFFREDINOL

### 87 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad a gynhwysir yn unrhyw un o'r canlynol (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir)—

(a) Deddf Seneddol;
(b) Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
(c) is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p. 30) (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 87 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(1)**

### 88 Dod i rym

(1) Mae'r Rhan hon yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol—

(a) Rhan 1 (rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol);
(b) Rhan 2 (newid yn yr hinsawdd);
(c) Rhan 5 (pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn);

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/03/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, RHAN 8 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 05 Hydref 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(d) adran 82 (diddymu gofynion i gyhoeddi);
(e) adran 84 (apelau yn erbyn ardollau draenio arbennig);
(f) adran 85 (pŵer mynediad);
(g) adran 86 (is-ddeddfau).

(3) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol—

(a) Rhan 3 (codi taliadau am fagiau siopa);
(b) Rhan 4 (casglu a gwaredu gwastraff);
(c) Rhan 6 (trwyddedu morol);
(d) adran 81 (pwyllgor llifogydd ac erydu arfordirol);
(e) adran 83 (prisio tir anamaethyddol).

(4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—

(a) pennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol;
(b) gwneud y ddarpariaeth drosiannol neu'r ddarpariaeth arbed honno mewn cysylltiad â dod i rym ddarpariaeth o fewn y Ddeddf hon y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** A. 88 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(1)**

## 89 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 89 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/03/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, RHAN 8 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 05 Hydref 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.